WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320500
Fax / Ffacs: 029 20 320600
Email / Ebost: wales@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Mr Keith Griffiths
Prif Weithredwr
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
The Pavilions
Parc Cambria
Cwm Clydach
Tonypandy
CF40 2XX

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | 26 Medi 2012 |
| **Ein cyfeirnod** | 479A2012 |
| **Eich cyfeirnod** | |
| **Rhif ffôn** | 029 2032 0500 |
| **E-bost** | WalesAuditOffice@WAO.gov.uk |
| **Tudalennau** | **1** o **11** |

Annwyl Keith,

## Asesiad Gwella

Mae'n ofynnol i mi, o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), gyflwyno adroddiad ar fy ngwaith archwilio ac asesu ynghylch a yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wedi cyflawni ei ddyletswyddau ac wedi bodloni gofynion y Mesur.

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi:

- fy marn ynghylch a yw'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau statudol mewn perthynas â chynllunio gwelliant;
- fy marn ar gydymffurfiaeth y Cyngor â'r gofynion i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus, yn seiliedig ar waith a wnaed hyd yma gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol, gan gynnwys:
  - cynnydd y Cyngor mewn perthynas â meysydd i'w gwella ac argymhellion a nodwyd yn fy asesiadau blaenorol;
  - unrhyw faterion perthnasol a all fod wedi dod i'r amlwg ers fy adroddiad diwethaf, gan gynnwys sylwadau ar sut mae'r Cyngor yn mynd i'r afael â heriau ariannol;
  - crynodeb byr o unrhyw adroddiadau gan reoleiddwyr perthnasol a gyhoeddwyd ers fy adroddiad diwethaf;
- fy nghynigion pellach ar gyfer gwella a/neu argymhellion;
- diweddariadau i gynllun gwaith ac amserlen Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer cyflawni fy ngwaith ar yr Asesiad Gwella.

Byddaf yn diweddaru fy safbwyntiau yn ystod y flwyddyn ac yn anfon llythyr arall erbyn diwedd mis Tachwedd 2012.

## Mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio gwelliant o dan y Mesur ac wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru

Deuthum i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

**Mae'r Cyngor yn parhau i adeiladu ar ei drefniadau cadarn ar gyfer sicrhau gwelliant ac mae ei gynllun gwella yn ystyrlon ac yn diffinio'r canlyniadau y mae'r Cyngor am eu cyflawni a'r rhesymau pam bod angen iddo weithredu er mwyn eu cyflawni**

Mae *Cynllun Corfforaethol 2012-13* (y Cynllun Gwella) yn nodi wyth blaenoriaeth y Cyngor ar gyfer gwella y mae'n bwriadu eu cyflawni dros y tair blynedd nesaf. Lluniwyd y Cynllun yng nghyd-destun y weledigaeth tymor hwy ar gyfer yr ardal, gyda chysylltiadau â'r Strategaeth Gymunedol a'r Cytundebau Canlyniadau. Gwnaed nifer o welliannau i'r Cynllun ers y llynedd, er enghraifft, er mwyn egluro'n fanylach y rhesymeg dros ddewis y blaenoriaethau ar gyfer gwella, gan gynnwys sut y llywiwyd y blaenoriaethau hyn drwy ymgynghori â dinasyddion, busnesau a rhanddeiliaid eraill. Mae'r Cynllun yn cynnwys canlyniadau ymgynghoriad a gynhaliwyd fel rhan o'r broses o lunio'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Caiff blaenoriaethau ar gyfer gwella a chamau gweithredu cysylltiedig eu gosod yng nghyd-destun hunanasesiad beirniadol o berfformiad y Cyngor o'i gymharu â pherfformiad cynghorau eraill yng Nghymru a Lloegr. Caiff meysydd o wendid a thanberfformio cymharol eu cydnabod a gweithredir arnynt. Yn bwysig, mae'r Cynllun bellach yn nodi'r canlyniadau y mae'r Cyngor am eu cyflawni ar gyfer pob blaenoriaeth a pham bod angen iddo gymryd camau i'w cyflawni.

Fel y llynedd, mae'r Cynllun yn ystyrlon ac wedi'i gyflwyno'n glir. Mae'n gynhwysfawr, wedi'i ysgrifennu'n dda ac yn hawdd ei ddilyn, gan lwyddo i ddiwallu anghenion y cyhoedd a chynulleidfaoedd mewnol. Mae dwy ran i'r cynllun: naratif yn nodi cyd-destun ac enghreifftiau (ond nid manylion) yr hyn y mae'r Cyngor yn bwriadu ei wneud a sut y bydd yn monitro cynnydd; a nifer o atodiadau technegol sy'n cynnwys cynlluniau gweithredu manwl ar gyfer pob blaenoriaeth ar gyfer gwella. Gellir darllen a deall y cynlluniau gweithredu heb ddarllen y naratif sy'n eu rhagflaenu, gan roi dewis i'r darllenydd o ran lefel y manylder y maent am ei chael. Defnyddir terminoleg gyson bellach i ddisgrifio amcanion gwella, gan ei gwneud hi'n haws cyfleu negeseuon allweddol a'u deall. Defnyddir cyn lleied o dermau technegol â phosibl ac mae strwythur y cynllun yn helpu'r darllenydd i ymdopi â chryn dipyn o wybodaeth yn gymharol hawdd. Caiff cerrig milltir a thargedau allweddol eu pennu, caiff swyddogion arweiniol eu nodi a chaiff y mesurau a ddefnyddir i fonitro cynnydd eu gosod yng nghyd-destun tueddiadau perfformiad presennol a sut mae hyn yn cymharu â chynghorau eraill.

Cyhoeddwyd y Cynllun ar ffurf electronig ar wefan y Cyngor ar 5 Gorffennaf 2012 ac mae copïau caled ar gael mewn llyfrgelloedd a chanolfannau lleol eraill. Mae'r Cyngor o'r farn mai dogfen dechnegol o ddiddordeb cyfyngedig i'r cyhoedd yw'r Cynllun manwl. Fel y cyfryw, yn unol â'i Gynllun Iaith Gymraeg, nid yw wedi cyhoeddi fersiwn Cymraeg o'r Cynllun er y bydd yn darparu fersiwn o'r fath ar gais. Cyhoeddwyd crynodeb dwyieithog byr o'r Cynllun yn rhifyn mis Gorffennaf 2012 o *Rhagolygon,* sef cylchlythyr y Cyngor i drigolion.

## Yn seiliedig ar waith a wnaed hyd yma gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol ac yn gyfyngedig iddo:

## Credaf fod y Cyngor yn debygol o gydymffurfio â'r gofyniad i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn ystod y flwyddyn ariannol hon

Deuthum i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

### Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd da wrth ymdrin â'r meysydd ar gyfer gwella a nodwyd yn fy asesiadau blaenorol

Rwyf wedi nodi o'r blaen nifer o gynigion ar gyfer gwella a hefyd wedi nodi rhai meysydd lle y byddem yn gwneud rhagor o waith. Caiff cynnydd mewn perthynas â'r materion hyn ei grynhoi isod a'i ddisgrifio'n fanylach yn Atodiad 1.

Mae'r Cyngor:

- wedi gwella ei gynlluniau ymhellach er mwyn sicrhau eu bod yn helpu'r cyhoedd i ddeall pa ganlyniadau y mae'r Cyngor yn anelu atynt;
- yn datblygu prosiectau wedi'u cynllunio i wella'r broses o gynllunio gwasanaethau a threfniadau rheolaeth ariannol ymhellach drwy ddefnydd ystyrlon wedi'i dargedu o gyllidebau 'ar sail sero' a dangosyddion cost uned.

Mae angen i fy staff gynnal gwaith pellach i'w galluogi i asesu cynnydd y Cyngor o ran gwella perfformiad o fewn meysydd gwasanaethau cymdeithasol craidd, a datblygu ei drefniadau llywodraethu TGCh ymhellach. Byddaf yn rhoi mwy o fanylion yn fy Adroddiad Gwella Blynyddol yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

## Mae gan y Cyngor ddull gweithredu cadarn o ran cyflawni effeithlonrwydd a darparu adnoddau ar gyfer gwelliannau a gynlluniwyd i wasanaethau

Mae'r Cyngor yn glir o ran effaith gostyngiadau mewn arian cyhoeddus ac wedi defnyddio gwybodaeth briodol ac eang, yn wybodaeth ariannol a mathau eraill o wybodaeth, i lywio ei gynlluniau. Mae trefniadau Cynllunio Ariannol Tymor Canolig y Cyngor yn asesu gofynion buddsoddi arfaethedig a'r broses o bennu targedau effeithlonrwydd, gan ystyried meysydd blaenoriaeth ar gyfer gwella. Fel rhan o'r broses hon, caiff unrhyw newidiadau arfaethedig i wasanaethau eu herio a chaiff yr effaith ei hasesu yn erbyn blaenoriaethau ar gyfer gwella. Mae model Gwerth am Arian mewnol wrthi'n cael ei ddatblygu, a fydd yn ceisio nodi a blaenoriaethu meysydd gwasanaeth lle y gellir defnyddio technegau pennu cyllidebau ar sail sero yn briodol.

Mae gan y Cyngor drefniadau cynllunio a monitro busnes da i helpu i gyflawni ei amcanion gwella. Mae'r trefniadau i adrodd ar gynnydd a'i fonitro yn gadarn ar lefel swyddogion ac ar lefel aelodau er y gallai'r broses o hunanwerthuso pa un a yw'r canlyniadau bwriadedig yn cael eu cyflawni fod yn fwy effeithiol.

## Mae'r Cyngor yn datblygu ei drefniadau rheoli risg er nad ydynt wedi'u rhoi ar waith yn llawn eto

Mae'r Cyngor wedi diwygio ei bolisi rheoli risg ac wedi'i ddiweddaru er mwyn sicrhau bod sylw corfforaethol yn canolbwyntio mwy ar risgiau strategol o bwys. Dylai'r polisi newydd sicrhau y caiff risgiau strategol eu nodi, y cyflwynir adroddiadau arnynt ac y cânt eu monitro ar lefel gorfforaethol, gyda mwy o risgiau gweithredol yn cael eu hystyried fel rhan o drefniadau cynllunio busnes. Mae'r polisi yn cynnwys pecyn cymorth ar gyfer nodi risgiau a defnyddir Ffynnon i gofnodi'r risgiau a'r mesurau sydd ar waith i'w lliniaru.

Mae gwaith yn mynd rhagddo i lunio cofrestr risg strategol ar gyfer y Cyngor cyfan, gan ddogfennu'r risgiau strategol hynny y mae'r Cyngor yn eu hwynebu, yn arbennig unrhyw risgiau o bwys sy'n cael effaith andwyol ar allu'r Cyngor i gyflawni ei flaenoriaethau. Caiff hon ei chynnal fel dogfen fyw a chyflwynir adroddiadau rheolaidd arni i'r Tîm Rheoli Corfforaethol ac i aelodau drwy Bwyllgor Perfformiad ac Adnoddau'r Cabinet.

## Mae'r trefniadau corfforaethol ar gyfer casglu gwybodaeth, cyflwyno adroddiadau a monitro perfformiad yn effeithiol

Mae angen i bob cyngor gael gwybodaeth dda a'i defnyddio'n dda er mwyn iddo ddarparu gwasanaethau da a'u gwella.

Ystyriodd ein harchwiliad o systemau'r Cyngor ar gyfer cyflwyno adroddiadau ar ei berfformiad amrywiaeth o Ddangosyddion Strategol Cenedlaethol, Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus, Setiau Data Gwella Gwasanaethau a mesurau lleol. Nodwyd gennym fod y data ategol yn gadarn er y gwnaethom awgrymu, mewn tri achos, y dylid gwella sail y

gwaith cyfrifo. Nid arweiniodd ein proses o ailgyfrifo'r dangosyddion perfformiad lleol at unrhyw newidiadau o bwys yn y canlyniadau. Gwnaethom amodi un dangosydd hefyd. Rydym wedi rhoi canfyddiadau manwl i swyddogion er mwyn iddynt allu mynd i'r afael â'r rhesymau dros y gwallau hynny a ganfuwyd.

Byddaf yn cyflwyno adroddiad arall ar berfformiad gwasanaethau yn fy Adroddiad Gwella Blynyddol.

### Mae gwasanaethau addysg y Cyngor ar gyfer plant a phobl ifanc yn ddigonol ac mae ganddo ragolygon digonol ar gyfer gwella

Arolygwyd gwasanaethau addysg y Cyngor ar gyfer plant a phobl ifanc gan Estyn ym mis Mawrth 2012. Cyhoeddodd Estyn ei hadroddiad ar yr arolygiad ym mis Gorffennaf 2012 ac mae ar gael ar ei gwefan yn www.estyn.gov.uk.

Asesodd Estyn fod gwasanaethau addysg y Cyngor ar gyfer plant a phobl ifanc yn ddigonol gyda rhagolygon digonol ar gyfer gwella. Crynhoir canfyddiadau a chasgliadau'r arolygiad yn Atodiad 2.

## Cynigion pellach ar gyfer gwella

Nid yw'r llythyr hwn yn awgrymu unrhyw gynigion newydd ar gyfer gwella. Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd y Cyngor o ran gweithredu'r cynigion a nodwyd yn fy adroddiadau a'm llythyrau blaenorol ac yn cyflwyno adroddiadau arno.

## Diweddariadau i'r cynllun gwaith a'r amserlen

Bydd Tîm yr Asesiad Gwella yn sicrhau bod y Cyngor yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y trefniadau manwl ar gyfer cyflawni fy ngwaith asesu.

Mae'r cynllun gwaith a'r amserlen a gaiff eu diweddaru'n rheolaidd yn rhoi rhagor o fanylion am y gwaith sy'n cael ei gyflawni yn ystod asesiad eleni ac yn benodol sut y byddwn yn ychwanegu gwerth drwy ganolbwyntio ar feysydd neu wasanaethau a nodwyd ar y cyd.

Mae'r cynllun gwaith a'r amserlen yn ystyried fy ymgynghoriad â'r awdurdodau gwella ar fy nghynigion ar gyfer gwaith archwilio perfformiad 2012-13. Yn benodol, byddaf yn gofyn i Dîm yr Asesiad Gwella ystyried yn ystod y flwyddyn faint y gallwn ddibynnu ar y prosesau hunanasesu (gan gynnwys eich adolygiad o lywodraethu wrth gynhyrchu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol a'ch Adroddiad Perfformiad Blynyddol). Byddaf yn gwneud sylwadau ar y gwaith hwn yn fy Adroddiad Gwella Blynyddol.

Rwyf yn ddiolchgar i'r Cyngor am y ffordd y mae wedi helpu i hwyluso ein gwaith a gobeithiaf weld trefniadau hyd yn oed mwy effeithiol ac effeithlon yn datblygu dros amser. Rwyf yn parhau i fod yn ymrwymedig i ddarparu lefelau priodol o sicrwydd cyhoeddus gan eich helpu ar yr un pryd i liniaru'r risgiau anochel i wasanaethau ac atebolrwydd sy'n deillio o leihad mewn adnoddau a newidiadau o ganlyniad i hynny.

Yn gywir

**HUW VAUGHAN THOMAS**

**ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU**

CC: Carl Sargeant, Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau

Colin Davies – Rheolwr

Justine Morgan – Arweinydd Archwilio Perfformiad

# Atodiad 1

| Cynigion ar gyfer gwella | | Cynnydd |
|---|---|---|
| C1 | Sicrhau mwy o gysondeb rhwng y derminoleg a ddefnyddir i gyfleu negeseuon allweddol yn y cynllun gwella, y cynlluniau gweithredu a'r crynodeb cyhoeddus er mwyn gwella dealltwriaeth o'r hyn y mae'r Cyngor am ei gyflawni a beth y mae'n bwriadu ei wneud a'i gwneud yn haws i groesgyfeirio rhwng y prif ddogfennau.* | Mae cynllun gwella eleni, sef Cynllun Corfforaethol 2012-13 (y Cynllun), yn ystyrlon ac wedi'i gyflwyno'n glir. Defnyddir terminoleg gyson bellach i ddisgrifio amcanion gwella, gan ei gwneud hi'n haws cyfleu negeseuon allweddol a'u deall. Mae hyperddolenni yn mynd â'r darllenydd i'r Strategaeth Gymunedol a'r Cytundeb Canlyniadau. |
| C2 | Parhau i wella effeithiolrwydd prosesau cynllunio gwelliant drwy sicrhau bod mesurau llwyddiant perthnasol sy'n seiliedig ar ganlyniadau a chamau gwella hollbwysig ar waith ynghyd â thargedau a cherrig milltir priodol.* | Mae'r Cynllun yn nodi'r canlyniadau y mae'r Cyngor am eu cyflawni ar gyfer pob blaenoriaeth a pham bod angen iddo eu cyflawni. Caiff pob cynllun gweithredu ei ategu gan wybodaeth berthnasol am y cyd-destun ar gyfer gweithredu a'r gwahaniaeth y mae'r Cyngor yn gobeithio ei wneud i fywydau dinasyddion ac maent i gyd yn ymhelaethu ar yr hyn y mae'n bwriadu ei wneud yn fanylach. Caiff cerrig milltir a thargedau allweddol eu pennu, caiff swyddogion arweiniol eu nodi a chaiff y mesurau a ddefnyddir i fonitro cynnydd eu gosod yng nghyd-destun tueddiadau perfformiad presennol a sut mae hyn yn cymharu â chynghorau eraill. |
| C3 | Atgyfnerthu trefniadau cynllunio gwasanaethau a rheoli ariannol drwy sicrhau bod y cysylltiadau rhwng blaenoriaethau strategol a blaenoriaethau ar gyfer gwella a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn glir ac yn ystyried yn rheolaidd elfennau o'r gyllideb a gaiff eu pennu 'ar sail sero' er mwyn sicrhau bod y gyllideb yn adlewyrchu lefelau gweithgarwch cyfredol.* | Mae trefniadau cynllunio ariannol y Cyngor yn cynnwys asesiad o ofynion buddsoddi arfaethedig a'r broses o bennu targedau effeithlonrwydd, gan ystyried meysydd blaenoriaeth ar gyfer gwella. Fel rhan o'r broses hon, caiff unrhyw newidiadau arfaethedig i wasanaethau eu herio a chaiff yr effaith ei hasesu yn erbyn blaenoriaethau ar gyfer gwella.<br>Mae model Gwerth am Arian mewnol wrthi'n cael ei ddatblygu, a fydd yn ceisio nodi a blaenoriaethu meysydd gwasanaeth lle y gellir defnyddio technegau pennu cyllidebau ar sail sero yn briodol. Mae'r gwaith hyd yn hyn wedi canolbwyntio ar gynigion cynllunio ar gyfer y model newydd a fydd wedyn yn destun proses graffu a herio gan y Tîm Rheoli Corfforaethol i asesu pa un a yw'r dull gweithredu yn rhesymol ac yn gytbwys.<br>Bydd fy staff yn parhau i fonitro cynnydd y Cyngor yn y maes hwn. |

| Cynigion ar gyfer gwella | Cynnydd |
| --- | --- |
| C4 Datblygu cyfres o ddangosyddion perfformiad i fesur costau uned a hyrwyddo meincnodi mewnol rhwng meysydd gwasanaeth allweddol er mwyn darparu gwybodaeth briodol at ddibenion craffu a herio a helpu i nodi cyfleoedd i wneud arbedion effeithlonrwydd pellach.* | Fel rhan o'r broses o lunio cynlluniau gweithredu'r blaenoriaethau ar gyfer gwella ar gyfer 2012-13, cynigiodd Swyddogion Arweiniol ddetholiad o ddangosyddion cost uned a fyddai'n helpu i ddangos graddau'r cynnydd sy'n mynd rhagddo. Lle roeddent ar gael, nodwyd cymharwyr mewnol neu allanol hefyd er mwyn helpu i osod y perfformiad/targed cyfredol mewn cyd-destun. Er enghraifft, mae cynllun gweithredu'r Gwasanaethau Plant yn defnyddio dau ddangosydd cost uned a gaiff eu casglu gan 14 o awdurdodau lleol eraill. Mae'r flaenoriaeth Gofal Cwsmeriaid yn defnyddio dangosydd cost uned a gesglir gan awdurdodau eraill hefyd drwy SOCTIM. Cynhwyswyd cyfanswm o bedwar dangosydd cost uned o fewn cynlluniau gweithredu blaenoriaethau ar gyfer gwella 2012-13, sef:<br>• Gwasanaethau Plant<br>• Cost gyfartalog fesul lleoliad maethu allanol fesul wythnos<br>• Cost gyfartalog fesul lleoliad preswyl allanol fesul wythnos<br>• Cynnal Annibyniaeth Pobl<br>• Gofal Preswyl Mewnol i'r Henoed (HFE) – Cost Wythnosol Crynswth Uniongyrchol Gyfartalog fesul Gwely a Feddiennir y Cyllidebwyd ar ei gyfer<br>• Gofal Cwsmeriaid<br>• Canolfan Gyswllt (Dydd) – cost fesul galwad a dderbynnir<br>Defnyddir dangosyddion cost uned eraill hefyd ar lefel weithredol i lywio trefniadau darparu gwasanaethau/strategaeth. Er enghraifft, cesglir y gost wythnosol gyfartalog ar gyfer lleoliad maethu mewnol (sy'n is na chost lleoliad maethu allanol). Mae'r wybodaeth hon wedi helpu i lywio a chefnogi'r ymgyrch i recriwtio mwy o ofalwyr maeth mewnol, a chaiff dangosydd a chamau gweithredu eu cynnwys yng nghynllun gweithredu blaenoriaeth ar gyfer gwella'r Gwasanaethau Plant er mwyn monitro cynnydd.<br>Mae'r cynnydd y mae'r Cyngor yn ei wneud yn y maes hwn yn galonogol a bydd fy staff yn parhau i weithio ochr yn ochr â'r Cyngor i asesu cynnydd. |

| Cynigion ar gyfer gwella | | Cynnydd |
|---|---|---|
| C5 | Datblygu ac atgyfnerthu trefniadau llywodraethu TGCh ymhellach fel eu bod yn fwy cyson â blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer gwella a thrawsnewid ac yn helpu i'w cyflawni yn well. | Mae gwaith yn mynd rhagddo i asesu perfformiad yn y maes hwn a byddaf yn adrodd arno'n fanylach yn fy Adroddiad Gwella Blynyddol yn ddiweddarach yn y flwyddyn. |
| C6 | Defnyddio systemau cynllunio gwasanaethau a rheoli perfformiad sy'n bodoli eisoes yn fwy effeithiol i bennu a monitro gwelliannau mewn meysydd craidd o fewn gwasanaethau i blant a phobl ifanc, ac i oedolion mewn angen. | Cynhelir asesiadau ar y cyd o gynnydd yn y maes hwn gydag AGGCC a chyflwynaf fy nghanfyddiadau ar gynnydd yn fy Adroddiad Gwella Blynyddol yn ddiweddarach yn y flwyddyn. |

# Atodiad 2

Asesodd Estyn fod gwasanaethau addysg y Cyngor ar gyfer plant a phobl ifanc yn ddigonol gyda rhagolygon digonol ar gyfer gwella yn dilyn ei harolygiad ym mis Mawrth 2012. Ceir isod grynodeb o'r adroddiad llawn ar yr arolygiad a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2012 sydd ar gael ar wefan Estyn yn www.estyn.gov.uk

## Mae gwasanaethau addysg y Cyngor ar gyfer plant a phobl ifanc yn ddigonol am y rhesymau canlynol:

- mae'r Cyngor yn gwella ei wybodaeth a'i ddealltwriaeth o'i ysgolion drwy ddefnyddio data yn well;
- mae'r cymorth i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwella ac yn cael effaith dda ar ddysgwyr;
- mae aelodau etholedig wedi gwneud penderfyniadau anodd yn ddiweddar o ran cau ysgolion;
- mae gan y Cyngor hanes hir o weithio mewn partneriaeth a chydberthnasau aeddfed, sy'n ei helpu i gydweithredu'n effeithiol;
- mae arweinwyr y Cyngor yn dechrau canolbwyntio mwy ar wella safonau ar gyfer dysgwyr.

Fodd bynnag:

- mae'r safonau yn gyffredin yng nghyfnodau allweddol 1, 2 a 3 ac yn rhy isel yng nghyfnod allweddol 4;
- mae defnydd y Cyngor o ddata yn gwella ond nid yw'n gwerthuso nac yn dadansoddi canlyniadau yn ddigon effeithiol i fod o fudd i ddysgwyr unigol a grwpiau o ddysgwyr;
- mae lefelau presenoldeb yn is na'r cyfartaledd mewn ysgolion uwchradd ac yn llawer is na'r cyfartaledd mewn ysgolion cynradd o gymharu â lefelau ysgolion tebyg ledled Cymru;
- mae nifer y lleoedd gwag yn rhy uchel, er bod cynlluniau cadarn ar waith i ymdrin â hyn;
- mae ansawdd y gwaith o arwain a rheoli ysgolion yn rhy anghyson;
- nid yw lefelau herio a chraffu yn ddigon cadarn ar draws gwasanaethau a phartneriaethau.

**Mae rhagolygon y Cyngor ar gyfer gwella yn ddigonol am y rhesymau canlynol:**

- mae gan arweinwyr a rheolwyr ymrwymiad cadarn i roi'r newidiadau angenrheidiol ar waith i wella safonau ar gyfer dysgwyr;
- mae'r Cyngor yn ymrwymedig i gydweithredu a gweithio mewn partneriaeth.

Fodd bynnag:

- mae perfformiad yn 2011, gan ystyried cyfran y disgyblion â hawl i brydau ysgol am ddim, wedi gostwng o gymharu â blynyddoedd blaenorol;
- gwnaed gwelliannau yn rhy ddiweddar i fedru dangos hanes o lwyddiant;
- nid ymdriniwyd yn llawn â'r argymhellion blaenorol i wella lefelau presenoldeb a lleihau'r lleoedd gwag;
- mae newidiadau rheoli yn y Cyngor yn rhy newydd i fedru dangos eu heffaith ar ddysgwyr.

**Er mwyn gwella, mae angen i Gyngor Rhondda Cynon Taf wneud y canlynol:**

A1 gwella safonau mewn ysgolion yn arbennig yng nghyfnod allweddol 4;

A2 gwella cyfraddau presenoldeb ymhob ysgol;

A3 gwella'r broses o werthuso a dadansoddi data ar draws meysydd gwasanaeth a phartneriaethau er mwyn llywio gwelliannau o ran canlyniadau i ddysgwyr;

A4 defnyddio'r pwerau llawn sydd ar gael i'r awdurdod i wella arweinyddiaeth a rheolaeth mewn ysgolion;

A5 lleihau nifer y lleoedd gwag;

A6 gwella cadernid trefniadau craffu a herio ac i ba raddau y cânt eu defnyddio ar draws pob gwasanaeth a phartneriaeth.